



YMGYRCH DIOGELU CYMRU WLEDIG
CAMPAIGN FOR THE PROTECTION OF RURAL WALES

DATGANIAD I'R WASG

13 EBRILL 2021

**YDCW YN LANSIO MANIFFESTO ETHOLIAD DEG PWYNT DROS ADFYWIAD
GWLEDIG**

Rhaid i daclo Newid Hinsawdd, yr argyfwng Bioamrywiaeth a sicrhau bod newid yn cael ei gefnogi yn iawn ar gyfer cymunedau amaethyddol a gwledig fod yn flaenoriaeth i bleidiau gwleidyddol yn etholiad y Senedd ym mis Mai – dywed Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW).

Heddiw (13 Ebrill) mae YDCW yn lansio maniffesto etholiad 10 pwynt ac yn galw ar yr holl bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr i gefnogi ei gynigion i ddiogelu'r amgylchedd.

Yn elusen gofrestredig ers bron i ganrif, mae YDCW wedi bod yn pledio achos tirwedd Cymru a'r rhai sy'n byw a gweithio mewn ardaloedd gwledig.

Mae Cynllun 10 pwynt YDCW* yn amlinellu'r camau y cred y dylid eu cymryd i ddiogelu a gwella cefn gwlad a mannau gwyrdd Cymru. Mae'r camau'n cynnwys:

- Penodi Comisiynydd Tirwedd a Chefn Gwlad i Gymru.
- System o gymorth ar ôl Brexit i ffermwyr bychan a chanolig.
- Adfywio Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Camau ymarferol a chyfeillgar i'r amgylchedd i wella trafndiaeth wledig.

Dywedodd cadeirydd YDCW, Jonathan Colchester, "Mae dwy flynedd ers i Lywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig ddatgan bod Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth yn argyfyngau. Ond mae'n hwyr glas gweld y camau i ymdrin â nhw.

"Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un gythryblus i bawb sy'n byw yng Nghymru. Ac eto, wrth i ni ddod allan o'r pandemig Covid-19 a bodloni gofynion Brexit, ni allwn anghofio'r cyfrifoldebau sydd gennym i ddiogelu ac ail-adeiladu Cymru wledig ar gyfer y genhedlaeth hon a'r rhai sydd i ddod.

“Yn awr, yn fwy nag erioed, mae arnom angen diogelu ein cefn gwlad a’n cymunedau gwledig. Rhaid i ni gydnabod cyfraniad y rhai sydd nid yn unig yn geidwaid ein cefn gwlad, ond sydd hefyd yn rhoi’r bwyd ar ein platiau.”

Dywedodd prif weithredwr YDCW, “Dylai diogelu’r amgylchedd ac etifeddiaeth naturiol Cymru fod yn y lle blaenaf ym meddyliau gwleidyddion.

Yn wir, un o’r meysydd y mae Covid-19 wedi ei amlygu yw pa mor fregus yw ein planed. Felly, rhaid i les yr amgylchedd a chynaliadwyedd cefn gwlad Cymru a’i system gynhyrchu bwyd gael eu tacio ar frys gan wleidyddion o bob ochr i’r sbectwm gwleidyddol.”

Dywedodd Mr Colchester, “Mae Gwella Llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru wedi eu cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

“Felly, mae ar Gymru angen cael Llywodraeth, ac awdurdodau lleol sy’n rhoi gwerth ar ein hamgylchedd naturiol a’i ddiogelu ble bynnag y maent – gwledig a threfol, hardd a sensitif – os ydym am gyflawni’r ymrwymadau hyn er budd ein dyfodol ni i gyd.”

Diwedd.

NODIADAU I OLYGYDDION

***CAMAU GWEITHREDU MANIFFESTO’R CPRW**

1. Penodi Comisiynydd Tirwedd a Bywyd Gwylt Cymru.

Byddai penodiad o’r fath yn rhoi ffocws newydd a pharhaol yn y Llywodraeth i ddiogelu ein hasedau naturiol digymar. Byddai’r Comisiynydd yn darparu cyngor i’r Llywodraeth ac Awdurdodau Lleol wrth ddal pwerau pan fetho popeth arall i atal bygythiadau i’r amgylchedd naturiol. Dylai fod gan y Comisiynydd rôl allweddol hefyd o ran arwain camau gweithredu i fynd i’r afael â’r Argyfwng Bioamrywiaeth a gwrthdroi colli cynefinoedd.

2. Cyflwyno system gymorth ar ôl Brexit i ffermwyr canolig a bach, sy'n gwobrwyo eu rôl hollbwysig yn cynhyrchu bwyd iach a lleol a diogelu natur a thirwedd.

Ni fydd y farchnad ar ei phen ei hun yn cynnal cymunedau gwledig, gan adael ffermwyr bach yn rhy agored i bwysau datblygwyd ac archfarchnadoedd. Mae’n rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd o wneud ffermio’n wirioneddol gynaliadwy a gwydn ledled Cymru.

3. System newydd o grantiau cefn gwlad i fentrau ar raddfa fach er mwyn hyrwyddo cadwraeth a thwristiaeth gynaliadwy mewn ardaloedd gwledig a threfol ymylol yng Nghymru.

Gellir treialu'r rhain mewn gwahanol ardaloedd i brofi cwmpas, nifer y bobl sy'n manteisio arnynt a'r sefydliad. Dylid ymddiried mewn awdurdodau lleol i redeg y cynlluniau o dan fframwaith cenedlaethol eang.

4. Rhaglen gan Lywodraeth Cymru i wella ac ymestyn Ardaloedd a Warchodir ar gyfer Natur yng Nghymru.

Byddai dwy gydran i'r rhaglen hon. Yn gyntaf, o fewn chwe mis adolygiad o'r holl Barciau Cenedlaethol presennol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yng Nghymru. Dylai'r adolygiad hwn nodi cyflwr diogelu natur ar hyn o bryd a chyflymu'r camau sydd eu hangen i adfer a gwella eu bioamrywiaeth, er mwyn cyrraedd targedau cenedlaethol bod 30% o'r tir a môr wedi'i ddiogelu ar gyfer natur erbyn 2030. Yn ail, dewis ardaloedd newydd y mae angen mwy o adnoddau a diogelwch statudol arnynt i helpu i gyrraedd y targedau hynny. Ymhlith yr ymgeiswyr cryf mae Gwastadeddau Gwent, Mynyddoedd Cambria a Choedwig Maesyfed.

5. Adfywio Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW).

Mae NRW yn asiantaeth sydd wedi'i gorymestyn sy'n rhoi cynnig ar amrywiaeth rhy eang o dasgau heb ddigon o adnoddau. Dylid ei ddiwygio trwy wahanu rhai o'i ddyletswyddau. Dylid creu Asiantaeth Cadwraeth Bywyd Gwylt a Thirwedd gref, a dylai'r gwaith o weinyddu Parciau Cenedlaethol ac AHNEoedd sefyll ar ei ben ei hun.

6. Camau i achub ein hafonydd a'n moroedd rhag llygredd.

Mae YDCW yn chwilio am ddull cyfannol o ymdrin â llygredd afonydd, aberoedd, rhwng llanw a morol. Mae newidiadau mewn amaethyddiaeth a phwysau cynyddol gan y sectorau domestig a diwydiannol wedi cynyddu allyriadau, elifion, erydiad a diraddio amgylcheddol. Mae ffigurau NRW yn dangos bod 2/3 o'r darnau mwyaf gwarchodedig o'n hafonydd yn methu. Dylai pob cyfrannwr at lygredd ddod yn rhanddeiliaid mewn sicrhau gwelliannau trwy gonsensws, gan ddefnyddio dulliau cydweithredol ochr yn ochr â rheoleiddio, monitro a gorfodi. Dylai tasglu cynhwysol yng Nghymru ar lygredd dŵr croyw a morol harneisio'r holl arbenigedd sydd ar gael, gan gynnwys y wyddoniaeth orau, i lunio cynllun gweithredu â thargedau penodol.

7. Pwerau cryfach i awdurdodau lleol orfodi diogelu manau gwyrdd agored, bywyd gwylt, tirwedd wledig a thir amaethyddol.

Yn benodol, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol fod â'r modd i orfodi'r amodau ar ddatblygiadau newydd, a ddylai fod yn rhan allweddol o'n system gynllunio. Ar hyn o bryd, mae'n amlwg nad yw llawer o amodau'n cael eu monitro'n ddigonol, sy'n arwain at weithredu a gorfodi tameidiog. Trwy'r cynlluniau datblygu rhanbarthol a lleol newydd, dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol fynnu egwyddor o ddatblygu defnydd-cymysg yn yr 21ain ganrif er mwyn lleihau cymudo, diogelu cefn gwlad a chreu cymunedau cynaliadwy. Hefyd, dylid creu mwy o Leiniau Glas ledled Cymru.

8. Ymrwymiad cadarn gan Lywodraeth Cymru i raglen gytbwys o ynni adnewyddadwy â mwy o bwyslais ar gynhyrchu ar y môr.

Mae angen i Gymru'r Dyfodol gael ei ategu gan raglen ynni Morol Cymru gynhwysfawr er mwyn sicrhau bod ynni'r llanw a'r gwynt yn cyfrannu'r rhan fwyaf o'n hynni i gyrraedd ein targedau carbon Sero-Net ac i'w hallforio. Mae'n rhaid i ynni adnewyddadwy daearol ddefnyddio'r dechnoleg gywir yn y manau cywir, gan ddefnyddio safleoedd tir llwyd, lleihau effeithiau ar y dirwedd, ac osgoi'n llwyr yr holl effeithiau andwyol ar Barciau Cenedlaethol, AHNEoedd a SoDdGAoedd, a'u lleoliadau.

9. Rhaglen benodol o fesurau dan arweiniad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â niwed i effeithiau presennol ac uniongyrchol ar yr hinsawdd.

Mae'n rhaid i'r rhaglen hon redeg ochr yn ochr â mesurau fel targedau ynni adnewyddadwy, a fydd yn arafu'r newid yn yr hinsawdd. Gwell amddiffyniad rhag llifogydd gan afonydd mewndirol, llifogydd arfordirol ac erydiad, a cholli cynefinoedd yn hanfodol i achub bywydau ac eiddo mewn ardaloedd gwledig a threfol. Dylai'r amddiffyniad hwn gyd-fynd â mynd ati i wella gallu ecosystemau naturiol i amsugno pwysau amgylcheddol.

10. Mesurau ymarferol sy'n ystyriol o'r hinsawdd i wella cludiant gwledig.

Dylai'r mesurau hyn gynnwys pwyslais ar gludiant cyhoeddus a phreifat wedi'i drydaneiddio a seilwaith ychwanegol ar gyfer beicio a cherdded. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwasanaethau trenau yng Nghymru yn cael eu datganoli'n llawn er mwyn darparu adnoddau ar gyfer gwella seilwaith rheilffyrdd trefol a gwledig, gan gynnwys gorsafoedd newydd.

CAPSIWN LLUN: Jon Parker, Prif Weithredwr yr Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig.

Am ragor o wybodaeth am Fanifesto YDCW, cysylltwch â:

Jon Parker
Prif Weithredwr YDCW
jon.parker@cprw.wales
07841 869893

Am ragor o wybodaeth am YDCW, ewch i www.cprw.org.uk